# Cynllun Pryderon Mynediad i Addysg Uwch

## Rhagarweiniad

1 Mae'r Cynllun yn rhoi cyfle i fyfyrwyr, staff ac eraill godi pryderon gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) ynghylch:

- cyflwyno a rheoli cwrs Mynediad i Addysg Uwch (AU) penodol
- y ffordd y mae Asiantaeth Dilysu Mynediad (ADM) yn cyflawni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â'r Diploma Mynediad i AU, neu
- sut mae ADM yn bodloni'r gofynion rheoliadol a nodir yng Nghynllun Cydnabyddiaeth QAA.

## Pwy all godi pryder?

2 Rydym yn croesawu pryderon gan unrhyw un, gan gynnwys myfyrwyr, staff, arholwyr allanol, aelodau'r cyhoedd a chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol.

## Beth os oes gennyf ganmoliaeth, sylw neu gŵyn am QAA?

3 Mae'r Cynllun Pryderon Mynediad i AU wedi'i gynllunio i roi cyfle i fyfyrwyr, staff ac eraill godi pryderon ynghylch cyflwyno a rheoli cyrsiau Mynediad i AU, neu'r ffordd y mae ADM yn cyflawni ei chyfrifoldebau neu'n bodloni gofynion rheoliadol. Mewn amgylchiadau pan fyddwch am gofrestru canmoliaeth, sylw neu gŵyn am QAA, gallwch wneud hynny trwy ddilyn Gweithdrefn Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion QAA.

## Sut ydw i'n gallu codi pryder?

4 Cyn codi pryder gyda QAA, dylai unrhyw bryder am gwrs Mynediad i AU penodol gael ei godi gyda darparydd y cwrs yn gyntaf, gan ddilyn eu gweithdrefnau cyhoeddedig. Os na all y darparydd ddatrys y pryder yn foddhaol, yna dylai'r ADM ymchwilio i hyn. Os nad yw'r pryder wedi'i ddatrys ar yr adeg honno, yna dylid ei godi gyda QAA (gweler Ffigur 1).

5 Yn yr un modd, dylid codi unrhyw bryder ynghylch y ffordd y mae ADM yn cyflawni ei chyfrifoldebau yn gyntaf gyda'r ADM. Os na all yr ADM ddatrys y pryder yn foddhaol, yna dylid codi hyn gyda QAA (gweler Ffigur 1).

6 Dylid codi pryderon sy'n ymwneud a sut mae ADM yn bodloni'r gofynion rheoliadol a nodir yn y Cynllun Cydnabyddiaeth yn uniongyrchol â QAA (gweler Ffigur 1).

7 Dylech godi pryder gyda QAA trwy lenwi ein Ffurflen Gyflwyno ac anfon copi i AHE@qaa.ac.uk.

8 Rydym yn gweithio yn ôl yr egwyddor y byddwn, yn ein gwaith yng Nghymru, yn trin y

Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal ac yn bodloni ein hysbysiad cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

9 Byddwn felly’n ymdrin ag unrhyw bryder fel y nodir yn y weithdrefn hon, p'un a yw'r pryder yn cael ei dderbyn yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac yn ateb yn yr iaith y cyflwynir y pryder ynddi, oni bai bod yr hysbysydd yn darparu dewis amgen.

10 Ni all QAA ymchwilio i bryderon cwbl ddi-sail. O'r herwydd, dylech gynnwys tystiolaeth gyda'ch cyflwyniad, lle bo'n rhesymol ymarferol. Gallai hyn fod ar ffurf gohebiaeth, papurau pwyllgor neu adroddiadau. Mae’n bosibl y gallwch wneud cais i’r darparydd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu i ddarparydd ac ADM trwy gyflwyno Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun, i gael gwybodaeth i ategu eich cyflwyniad. Os na allwch gael gafael ar gopïau o ddogfennaeth yr hoffech eu cynnwys fel tystiolaeth, ond y gallwch ddangos cred resymol fod y rhain yn bodoli, esboniwch hyn yn eich cyflwyniad.

11 Lle bo pryder yn ymwneud ag ADM wedi’i lleoli yng Nghymru neu Loegr, mae’n bosib y bydd QAA yn hysbysu'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) neu Gymwysterau Cymru (fel y bo'n berthnasol) am ganlyniad unrhyw ymchwiliad a gynhaliwyd i fynd i'r afael â'r pryder (gweler Ffigur 1).

**Ffigur 1: Gweithdrefn pryderon**



# Beth am gyfrinachedd?

12 Rydym wedi ymrwymo i ystyried pryderon o bob ffynhonnell, gan gynnwys gan fyfyrwyr neu staff sy'n ofni y gallai codi pryderon arwain at ryw fath o gosb gan y darparydd neu'r ADM y maent yn pryderu yn ei gylch.

13 Os ydych chi'n teimlo'n anghyfforddus ynglŷn â chodi'ch pryderon gyda'r darparydd neu'r ADM cyn ei godi gyda ni, efallai y byddwn yn gallu cysylltu â'r darparydd neu'r ADM yn uniongyrchol a gallwn ofyn am dystiolaeth am y mater sy'n peri pryder i chi. Cysylltwch â ni yn AHE@qaa.ac.uk a gallwn siarad â chi am ein dull o weithredu, gan gynnwys y pethau y gallwn eu gwneud i amddiffyn eich hunaniaeth.

# Sut rydym yn ymchwilio i bryderon

## Sgrinio

14 Diben sgrinio yw penderfynu a yw'r pryder yn dod o fewn cwmpas yr hyn y gall QAA ymchwilio iddo. Bydd pryderon sy'n amlwg y tu allan i'n cwmpas yn cael eu sgrinio allan ar y cam hwn o’r broses. Os caiff pryder ei sgrinio allan, byddwn yn esbonio pam.

15 Os yw’r hyn rydych chi’n ei gyflwyno i ni’n anghyflawn neu os nad ydych wedi darparu tystiolaeth ddogfennol i ategu eich pryder, efallai y byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth ar yr adeg hon. Os na fyddwch yn ymateb i'n cais am ragor o wybodaeth, a'n bod yn ystyried nad oes gennym ddigon o wybodaeth i fwrw ymlaen ag ymchwiliad, byddwn yn sgrinio'r pryder.

16 P’un a allwn ni ymchwilio ai peidio, byddwn yn hysbysu’r ADM dan sylw am y materion a godwyd, gan gymryd camau i ddiogelu eich hunaniaeth fel y bo’n briodol. Gallwn hefyd drosglwyddo gwybodaeth i sefydliad arall, megis corff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol (gan gynnwys Ofqual a Chymwysterau Cymru), os credwn y gallai hyn eu cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau.

## Ymchwiliad

17 Os credwn fod y pryder o fewn cwmpas yr hyn y gallwn ymchwilio iddo, bydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Asesu a Mynediad i Addysg Uwch neu Reolwr Diploma Mynediad i Addysg Uwch QAA yn gwneud penderfyniad i gychwyn ymchwiliad. Penodir tîm ymchwilio i gynnal yr ymchwiliad, a fydd fel arfer yn cynnwys un Swyddog QAA a hyd at ddau adolygydd. Bydd QAA yn gwirio i sicrhau nad oes gan aelodau'r tîm ymchwilio wrthdaro buddiannau â'r ADM yn unol â pholisi QAA. Byddwn yn hysbysu'r ADM o enwau holl aelodau'r tîm er mwyn rhoi cyfle i'r ADM nodi unrhyw wrthdaro buddiannau a fyddai’n deillio o weithio gyda’r adolygwyr a bennwyd.

18 Byddwn yn hysbysu'r ADM yn ysgrifenedig ei bod yn destun ymchwiliad ac yn amlinellu cwmpas yr ymchwiliad. Pan fydd angen rhagor o wybodaeth arnom y tu hwnt i'r hyn a gyflwynwyd i ni fel rhan o'r Cynllun Pryderon, byddwn yn gofyn am hyn gan yr ADM.

19 Bydd ymchwiliad fel arfer yn cynnwys cyfuniad o rai neu bob un o’r gweithgareddau canlynol:

- cyfarfod ymchwilio gydag aelodau allweddol o staff a rhanddeiliaid
- adolygiad wrth-y-ddesg o dystiolaeth (copïau caled a/neu electronig)
- ymweliad ymchwilio i arsylwi ar y camau a gymerwyd gan yr ADM i fodloni meini prawf sy’n gysylltiedig â thrwyddedu’r ADM a/neu amodau safonol cytundeb trwyddedu’r ADM.

## Deilliannau

20 Bydd y tîm ymchwilio yn cwblhau adroddiad ar yr ymchwiliad i'r ADM sy'n crynhoi canfyddiadau'r tîm ynghylch:

- cydymffurfio â meini prawf trwyddedu'r ADM a/neu amodau safonol cytundeb trwyddedu'r ADM
- camau gweithredu sy'n ofynnol o'r ADM (gyda dyddiadau cwblhau)
- camau gweithredu dilynol sy'n ofynnol o'r ADM (gyda dyddiadau cwblhau)
- sgôr risg yr ADM.

21 Byddwn yn rhannu drafft o'r adroddiad gyda'r ADM fel ei bod yn cael y cyfle i roi sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y cynnwys. Lle bo'n briodol, gall y tîm ymchwilio ddiwygio'r adroddiad yn seiliedig ar ymateb yr ADM.

22 Unwaith y bydd yr adroddiad terfynol wedi'i gynhyrchu, bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoleiddio Mynediad a Thrwyddedu (ARLC) iddynt ystyried a chadarnhau'r canlyniadau cydymffurfiaeth, y camau gweithredu a'r sgôr risg. Unwaith y bydd ARLC wedi cymeradwyo'r adroddiad, bydd yn cael ei anfon at yr ADM.

23 Mae amrywiaeth o ddeilliannau posib i ymchwiliad o'r fath - bydd y rhain yn cael eu hamlinellu i chi pan fyddwn yn cydnabod derbyn eich pryder.

## Terfynau amser

24 Unwaith y bydd eich pryder wedi dod i law, bydd yn cael ei gofnodi a'i gydnabod o fewn tri diwrnod gwaith o'i dderbyn.

25 Os bydd y pryder yn disgyn y tu allan i gwmpas QAA, byddwch fel arfer yn cael gwybod am hyn yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith i dderbyn y pryder.

26 Rydym yn ymdrechu i ymchwilio i bryderon yn gyflym ac yn drylwyr. Fel arfer, bydd y broses ymchwilio'n cael ei chwblhau o fewn 12 wythnos i dderbyn pryder. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosib y bydd angen ymestyn y cyfnod hwn - er enghraifft, os yw'r mater yn arbennig o gymhleth, neu os yw casglu tystiolaeth wedi cymryd mwy o amser neu wedi bod yn anoddach na'r disgwyl.

27 Lle byddwn yn penderfynu ymchwilio i'ch pryder, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch cynnydd trwy ddarparu diweddariadau ar adegau priodol trwy gydol yr ymchwiliad. Byddwn yn rhoi gwybod i chi yn ysgrifenedig os yw'r broses ymchwilio yn mynd i gymryd mwy na 12 wythnos.

# Preifatrwydd a diogelu data

28 Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol unigolion sy'n cyflwyno pryderon i'r Cynllun ar sail buddiannau dilys - rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU a hyrwyddo a chynnal ansawdd a safonau mewn addysg uwch.

29 Pan fyddwn yn rhannu gwybodaeth am bryder gyda chyrff eraill (fel y disgrifir uchod), ni fyddwn byth yn rhannu data personol (gan gynnwys enw a manylion cyswllt) sy'n perthyn i'r sawl sy'n codi'r pryderon os ydynt wedi gofyn am gael aros yn ddienw. Lle mae'r person wedi gofyn am aros yn ddienw, byddwn naill ai'n gwneud y manylion a rannwn yn ddienw neu'n defnyddio ffugenwau, gan wneud pob ymdrech i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

30 Bydd y manylion personol a ddarperir gan unigolion sy'n cyflwyno pryderon yn cael eu storio'n ddiogel ar ein systemau mewnol, gyda chyfyngiadau ar y sawl sydd â mynediad i'r wybodaeth honno. Rydym yn cadw gwybodaeth am ymchwiliadau i bryderon am dair blynedd, cyn ei dinistrio'n ddiogel. Ar ôl cau achos, caiff unrhyw fanylion personol a gedwir ar ffeil eu dileu, a chaiff y wybodaeth ei gwneud yn ddienw neu byddwn yn defnyddio ffugenwau; mae hefyd yn bosib y byddwn yn cadw'r manylion hyn ar ffurf côd am weddill y cyfnod hwn.

31 Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â ni.

32 Os dymunwch gofrestru cwyn am sut y cafodd eich gwybodaeth bersonol ei phrosesu, gallwch wneud hynny trwy ddilyn Gweithdrefn Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion QAA.

Cyhoeddwyd - Ionawr 2025

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk